**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES**

**(O Bell Trwy Teams)**

<u>**Aelodau sy'n Bresennol:**</u> <u>**Dydd Iau, 3 Mawrth 2022**</u>

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, J.Miller, D.Whitelock, A.N.Woolcock, C.Edwards, W.F.Griffiths, H.C.Clarke a/ac N.J.E.Davies |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, J.Hodges, R Davies, C.Howard, C.Frey-Davies, D.Harding, Potts, S.Waite, T.Davies a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards |

---

1. <u>**COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**</u>

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Medi 2021 a 20 Ionawr 2022 fel cofnod gwir a chywir.

2. <u>**EFFAITH COVID-19 AR GYNALIADWYEDD CARTREFI GOFAL POBL HŶN YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT (DIWEDDARIAD LLAFAR)**</u>

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ddiweddariad llafar i'r Aelodau ynghylch effaith COVID-19 ar gynaliadwyedd cartrefi gofal pobl hŷn yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Esboniwyd bod cartrefi gofal yn dal i weithredu rhwng adfer ac ymateb ar hyn o bryd, a bod sefyllfaoedd mewn cartrefi gofal unigol yn newid yn rheolaidd iawn; oherwydd y sefyllfa bresennol hon, roedd yn anodd i swyddogion ddarparu diweddariad llawn a manwl ar y sector cartrefi gofal i oedolion.

Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn gallu rhoi gwell dealltwriaeth o sut y gallai'r sector hwn edrych yn y dyfodol, gan gynnwys

cynaliadwyedd y farchnad, ymhen tua 3 mis. Nodwyd bod cartrefi gofal yn ymdopi, er gwaethaf y ffaith bod y cyngor wedi gorfod camu i mewn i helpu gyda phrinder staff.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd problemau o hyd o ran recriwtio staff ar gyfer cartrefi gofal. Dywedodd swyddogion fod problemau o hyd, gyda rhai cartrefi'n dibynnu'n drwm iawn ar staff asiantaeth. Fodd bynnag, esboniwyd bod y cyngor yn gwneud darn o waith i edrych ar holl weithlu'r sector gofal er mwyn ceisio datrys y materion presennol dan sylw. O ran y farchnad gofal cartref, nodwyd bod hyn mewn sefyllfa debyg, ac roedd swyddogion yn gwneud yr hyn a allent er mwyn darparu cymorth.

Gofynnodd y Pwyllgor am yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gofal seibiant. Esboniwyd bod trafferthion wedi bod ers dechrau'r pandemig o ran darparu gofal seibiant sylweddol; fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd rhoi seibiant i ofalwyr rhag gofalu, roedd y cyngor wedi cynnig rhai mathau eraill o seibiant, ac erbyn hyn roedd ganddynt nifer o gynlluniau y gellid eu defnyddio wrth symud ymlaen. Ychwanegwyd y byddai'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu dros y flwyddyn nesaf, gan fod swyddogion yn edrych eto ar seibiant a'r hyn y gellid ei wneud yn wahanol yn dilyn y pandemig. Un enghraifft a ddarparwyd oedd bod rhai gofalwyr yn gofyn am ychydig oriau o'u diwrnod er mwyn cymryd peth amser i'w hunain; yn hytrach na diwrnod neu wythnos lawn. Yn yr achosion lle'r oedd teuluoedd yn ei chael hi'n anodd iawn, nodwyd bod unigolion yn cael eu rhoi mewn cartref gofal preswyl fel rhan o ofal estynedig; nid math o seibiant oedd hwn, ond roedd yn rhoi seibiant i'r teulu o ofalu am ychydig ddyddiau. I gloi, dywedwyd nad oedd seibiant wedi dychwelyd yn llwyr i'r ffordd yr hoffai swyddogion iddo fod; fodd bynnag, roedd mewn sefyllfa lle gellid ei chymeradwyo, a oedd yn rhywbeth nad oedd swyddogion wedi gallu ei wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cafwyd trafodaeth ynghylch asesiadau unigolion. Hysbyswyd yr Aelodau na ddylid oedi'n sylweddol gydag asesiadau, er gwaethaf y pwysau o ganlyniad i'r galw yn y gymuned a'r galw yn yr ysbyty. Anogwyd yr Aelodau i gysylltu â swyddogion os oeddent yn ymwybodol o faterion gydag achosion unigol; byddai swyddogion wedyn yn gallu symud ymlaen â'r achos.

Yn dilyn y drafodaeth ynghylch gofal seibiant, gofynnwyd a oedd swyddogion yn ymchwilio i ailgyflwyno'r canolfannau dydd a oedd yn darparu seibiant diwrnod llawn. Cadarnhawyd bod swyddogion yn edrych ar bob math o ddarpariaethau amgen, a oedd yn wahanol i'r

hyn a oedd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer seibiant; er enghraifft, datblygu canolfan byw'n annibynnol yn B'spoked.

## 3. <u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

<u>Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2021-22</u>

Cyflwynwyd Adroddiad Perfformiad y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau i Oedolion i'r Aelodau ar gyfer cyfnod y 3ydd Chwarter (Ebrill 2021 – Rhagfyr 2021).

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn manylu ar gynnydd yn y pwysau ar y ganolfan gofal pwynt cyswllt unigol; nododd yr adroddiad fod cynnydd yn nifer yr achosion lle'r oedd risg yn cael ei nodi o ganlyniad i'r ymholiadau adran 47. Gofynnwyd a allai swyddogion gadarnhau a oedd y cynnydd mewn pwysau yn gysylltiedig â'r pandemig. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc fod y ganolfan gofal pwynt cyswllt unigol wedi bod dan bwysau sylweddol drwy gydol y pandemig. Esboniwyd bod swyddogion yn barod ac yn ymateb i'r cynnydd yn y galw, oherwydd cyn y pandemig roedd swm sylweddol o adnoddau, gan gynnwys staff ychwanegol, wedi'u dyrannu i'r gwasanaeth. Ychwanegwyd bod y galw yn parhau i fod yn uchel yng Nghastell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd, ond roedd swyddogion yn gallu parhau i fodloni hyn. Sicrhawyd yr Aelodau bod y gwasanaethau i blant wedi cynnal eu cyfrifoldebau diogelu drwy gydol y pandemig; Parhaodd swyddogion i ymweld â theuluoedd a phlant diamddiffyn yn y gymuned.

Cyfeiriwyd at ganran yr ailgofrestriadau plant ar gofrestr amddiffyn plant yr awdurdod lleol; holwyd pam y rhestrwyd y dangosydd perfformiad hwn yn goch. Esboniodd swyddogion fod y cyngor wedi creu trefniant gyda'i bartneriaid, ysgolion lleol, ymwelwyr iechyd a theuluoedd, lle cawsant i gyd eu hannog i ailatgyfeirio pe bai'r sefyllfa'n newid yn y dyfodol; rhaid cadw hyn mewn cof wrth edrych ar y gyfradd ailatgyfeirio. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y gyfradd atgyfeirio'n cael ei monitro'n rheolaidd, ac mae swyddogion yn archwilio'r holl achosion er mwyn penderfynu a ddysgwyd unrhyw wersi neu a oedd unrhyw themâu; yna caiff y math hwn o wybodaeth ei bwydo'n ôl i'r gwasanaeth. Soniodd swyddogion nad oeddent yn bryderus ynghylch y ffigur a restrwyd yn y dangosyddion perfformiad oherwydd y rhesymau hyn.

Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion ymhelaethu ar y dangosydd perfformiad sy'n ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo gofal; nododd yr adroddiad nad oedd swyddogion yn gallu cyfrifo'r dangosydd perfformiad hwn gan nad oedd unrhyw ddata wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru ers mis Mawrth 2020 oherwydd COVID-19. Esboniodd swyddogion fod y dangosydd hwn wedi'i atal ar ddechrau'r pandemig. Sicrhawyd yr Aelodau bod Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yn ymwybodol o'r ffigurau sy'n ymwneud â'r rheini mewn gwelyau ysbyty, y rheini sy'n aros am becyn gofal neu'r rheini sy'n aros am leoliad gofal preswyl; darparwyd y dadansoddiad hwn o wybodaeth i swyddogion yn wythnosol. Nodwyd bod oedi, ond roedd y tîm yn ymwybodol o bob sefyllfa lle cafwyd oedi a'r rhesymau pam.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â nifer yr achosion o oedolion sydd mewn perygl sy'n cael eu hadrodd. Amlygodd yr adroddiad a ddosbarthwyd nad oedd yn syndod bod adroddiadau wedi cynyddu, gan fod gweithwyr proffesiynol yn fwy gofalus wrth adrodd; fodd bynnag, nifer yr adroddiadau a arweiniodd at ymholiadau oedd 20%. Esboniodd swyddogion fod cyfuniad o resymau dros hyn:

- Mae'r tîm yn annog bobl i wneud adroddiadau, hyd yn oed mewn amgylchiadau lle mae gan bartneriaid ond ychydig o awgrym ohonynt;
- Os nad yw oedolyn mewn perygl yn sbarduno ymateb i ddiogelu yn awtomatig, roedd y tîm wedi profi 'drysau blaen' ar draws y Gwasanaethau i Blant ac Oedolion a oedd yn arafu'r broses; maent yn casglu gwybodaeth ac yn cynnal gwiriadau ochrol, a allai wedyn arwain at rywun yn cael cyngor, cymorth neu gymorth gofalu o ganlyniad i'r adroddiad hwnnw. Soniwyd nad oedd hyn o reidrwydd yn diogelu, ond cafodd effaith ar yr adroddiad ffigurau i'r Pwyllgor;
- Roedd y tîm hefyd wedi newid y ffordd yr oeddent yn mynd ati i ddiogelu oedolion; cyn i ddiogelu gael ei symud i'r 'drws blaen', roedd llawer o achosion diogelu’n cael eu hystyried yn syth fel diogelu oedolion. Fodd bynnag, nodwyd bod y tîm wedi dechrau dyrannu adroddiadau i wahanol is-adrannau, megis y rheini sy'n ymwneud â phryderon proffesiynol a'r rhai sy'n ymwneud ag oedolion mewn perygl; roedd hyn ynddo'i hun wedi arwain at gostyngiad sylweddol yn yr ymholiadau adran 126.

Dywedwyd bod y pwyntiau a godwyd uchod yn ffactorau o ran pam yr oedd canran is o adroddiadau yn arwain at ymholiadau; Mae swyddogion yn monitro ac yn gwirio'r ffigurau hyn yn ofalus, yn

ogystal â gwirio'n fisol fel Tîm Diogelu i ymchwilio ymhellach i rai o'r achosion.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â’r nifer uchel o lwythi achos fesul gweithiwr ar gyfer y Tîm Anableddau. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw reswm penodol pam mae gan y tîm y nifer uchaf o achosion, ac a oedd swyddogion yn fodlon bod hyn yn ddiogel. Dywedwyd bod y llwythi achos ar draws y gwasanaeth cyfan yn cael eu monitro'n ofalus; nid oedd unrhyw achosion sydd heb eu neilltuo o fewn y tîm, ac roedd pob achos yn briodol ac yn cael ei reoli'n ddiogel o fewn y gwasanaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor bod staff ychwanegol yn y gwasanaeth er mwyn gallu rheoli’r llwythi achos, ac roedd y tîm yn ffodus o gael nifer o weithwyr arbenigol. Nodwyd nad oedd llawer iawn o gyfle i symud achosion ar ôl iddynt fodloni eu meini prawf ar gyfer plant ag anabledd, o ystyried natur y rhesymau pam yr oedd y plant hynny'n cael eu cefnogi gan y tîm; roedd hyn yn golygu bod lefel uchel o brofiad ac arbenigedd wedi'i datblygu o fewn y gwasanaeth. Ychwanegodd swyddogion fod y tîm yn brysur, a bod llawer o waith i'w wneud; fodd bynnag, nid oedd unrhyw bryderon ynghylch y llwyth gwaith.

Gofynnodd yr Aelodau pa ddarpariaethau a chymorth oedd ar waith yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu lluosog dwys ar ôl iddynt adael yr ysgol. Er mwyn darparu digon o wybodaeth i'r Aelodau, gofynnodd swyddogion a allent baratoi papur briffio i'w ddosbarthu i'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod; gan mai dyma oedd y cyfarfod olaf yn y weinyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles.

Cyfeiriwyd at yr Adolygiad Dysgu y manylir arno yn Atodiad 6 yr adroddiad a ddosbarthwyd. Amlygodd yr adroddiad mai nod yr adolygiad oedd ceisio deall yr arfer ar yr achos yn erbyn cefndir eu hamgylchedd gwaith corfforol a seicolegol; ac nid diben yr adolygiad oedd neilltuo bai na chyfrifoldeb, ond dysgu sut i wella. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am sut y dewiswyd yr achos, ac am sicrwydd bod yr adolygiad wedi'i gynnal fel y nodwyd yn yr adroddiad; i beidio â neilltuo bai na chyfrifoldeb. Esboniodd swyddogion ei fod wedi cael ei gydnabod yn yr arolygiad amlasiantaethol diweddar fod yr Adolygiad Dysgu wedi'i roi ar waith i sefydlu diwylliant dysgu yng Nghastell-nedd Port Talbot; ymgais wirioneddol i gael unigolion at ei gilydd, a manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer dysgu gwersi. Dywedwyd bod yr ymarfer wedi'i gwblhau gyda swyddogion a phartneriaid y cyngor; roedd yr adborth a gafwyd o'r adolygiadau yn ostyngedig, gan fod y staff yn gwerthfawrogi'r amser a dreuliwyd gyda hwy, a'r dull a

ddefnyddiwyd. Sicrhaodd Pennaeth y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc yr Aelodau fod yr Adolygiadau Dysgu wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn, ac nid oes ganddynt ddiwylliant beio.

Yn dilyn yr uchod, mynegodd swyddogion ei fod yn amgylchedd myfyriol i ymarferwyr, a gafodd groeso da iawn ac a oedd wedi'i sefydlu'n dda. Nodwyd bod nifer o adolygiadau dysgu wedi'u cynnal, ac roedd swyddogion yn hapus i rannu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis yr achosion; roedd y meini prawf bob amser yn cael eu hadolygu, gan fod swyddogion yn cydnabod pwysigrwydd adborth i'r system. O ran yr achosion penodol, amlygwyd y canlyniadau i ddangos yr achosion hynny sy'n symud ymlaen i adolygiad ymarfer plentyn neu oedolyn. Soniwyd bod dysgu mewnol yn cael ei gynnal ar unwaith er mwyn ceisio nodi dysgu cynnar; mae hyn yn atal gorfod aros am adolygiad ymarfer plant, ac yn helpu i lywio ymarfer ar unwaith, heb unrhyw oedi.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

<u>Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid i Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid - Trosolwg</u>

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi manylion trosolwg o'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) a'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer ei weithredu, a'r goblygiadau a ragwelir i'r awdurdod lleol.

Awgrymodd yr Aelodau y dylid cynnal seminar ar gyfer yr holl Aelodau ar gyfer y weinyddiaeth newydd ar bwnc LPS, i roi gwybod i bob Aelod am y sefydliad newydd.

Nododd yr adroddiad a ddosbarthwyd fod yr Awdurdod Lleol wrthi'n adolygu strwythur tîm y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), yn fewnol yn hytrach na thrwy asiantaeth. Mynegwyd mai ei gadw'n fewnol fyddai'n well, gan mai dyma'r unig ffordd y gallai'r cyngor gael rheolaeth lawn dros y materion. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'n well ganddynt ei gadw'n fewnol; cafodd y cyfeiriad at asiantaeth ei gynnwys yn yr adroddiad i adlewyrchu'r ymateb presennol. Nodwyd mai dim ond mewn achosion yr oedd angen ymateb iddynt mewn modd amserol y defnyddiwyd asiantaeth ar gyfer y ceisiadau brys hynny am DoLS. Ychwanegodd swyddogion fod y tîm bob amser wedi gweithio gydag ôl-groniad mewn achosion, felly nid oedd yn anarferol, gan fod hyn wedi digwydd oherwydd y galw mawr a ddaeth yn sgil DoLS.

Cydnabuwyd nad oedd dyddiad cychwyn ar gyfer y sefydliad newydd wedi'i gadarnhau oherwydd goblygiadau'r pandemig. Gofynnodd yr Aelodau sut yr oedd swyddogion yn ymdopi o ran cynllunio'r gyllideb heb unrhyw ddyddiad cychwyn amlwg. Yn ogystal, cyfeiriodd yr adroddiad at y ffaith y gall fod angen ehangu'r tîm presennol; gofynnwyd a oedd swyddogion yn hyderus y byddant yn gallu recriwtio'r staff newydd angenrheidiol. Eglurodd y Prif Swyddog Diogelu fod swyddogion, wedi defnyddio'r gair 'gall' drwy gydol yr adroddiad; y rheswm am hyn yw bod swyddogion yn aros am godau ymarfer, ac i weithgorau eraill Llywodraeth Cymru fwydo i'r Gweithgor Rhanbarthol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o waith dyfalu ar hyn o bryd; roedd rhai o'r ffigurau yn yr adroddiad yn geidwadol, ond dyma'r gorau y gellid ei ragweld ar draws y Rhanbarth. Roedd swyddogion yn amau y bydd oedi o ran gweithredu'r LPS am flwyddyn arall; fodd bynnag, bydd hyn yn rhoi mwy o amser i'r cyngor a'r Rhanbarth gynllunio.

O ran elfen Technoleg Gwybodaeth yr adroddiad, gobeithiai'r Aelodau na fyddai system annibynnol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn cael ei mabwysiadu, gan fod yr angen am lif cyfathrebu a gwybodaeth ar draws y Rhanbarth yn bwysig iawn.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

<u>Caffael Gwasanaeth Ymateb i Gwympiadau Symudol - Cynllun Peilot 6 Mis</u>

Darparwyd adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch y cynllun peilot chwe mis arfaethedig ar gyfer gwasanaeth ymateb i gwympiadau symudol i ddefnyddwyr gwasanaethau llinell fywyd/tele-ofal CNPT.

Codwyd pryderon ynglŷn â'r ffaith bod y peilot ar gyfer y rheini a oedd yn defnyddio llinell fywyd CNPT yn unig; byddai'n fuddiol cynnwys eraill a allai gael cwympiad. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith mai cynllun peilot bach oedd hwn, gyda swm bach o arian i dreialu'r gwasanaeth hwn mewn un ardal benodol; dewiswyd clwstwr Afan i dreialu hyn gan fod yr adran Iechyd wedi'i sefydlu ar hyn o bryd yn ardaloedd Cwm Tawe a Chastell-nedd. Hysbyswyd yr Aelodau bod y cyngor yn archwilio nifer o opsiynau mewn perthynas â'r mater hwn; roedd y peilot hwn ar yr agwedd hon er mwyn nodi a allai'r cysyniad weithio. Ychwanegwyd bod swyddogion hefyd yn ystyried a oedd hyn yn rhywbeth y gallai gwasanaeth gofal cartref mewnol y cyngor ei ddefnyddio; yn y gorffennol, roedd y cyngor yn cynnal gwasanaeth 24/7, ond dadansoddwyd nad oedd yr angen yno drwy gydol y nos bryd hynny. Dywedodd swyddogion fod pethau wedi newid ers hynny,

fel y dangosodd yr ystadegau; felly, dylid ail-ddadansoddi'r angen am wasanaeth 24/7. Esboniwyd pe bai'r cynllun peilot yn llwyddiannus, mai'r cynllun yn y pen draw fyddai lledaenu hyn er mwyn galluogi unrhyw un i gael mynediad at y gofal perthnasol. Bydd swyddogion yn cyflwyno gwerthusiad o'r peilot i'r Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosib gweithio gyda'r adran budd-daliadau lles a'r trydydd sector i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth llinell fywyd drwy gael mynediad at grantiau. Cadarnhaodd swyddogion fod hyn yn bosib; roedd cyfle ar hyn o bryd gyda'r gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud o ran lles, a'r agenda ataliol ei hun, i allu nodi cyfleoedd a sut y gellir manteisio i'r eithaf arnynt. Soniwyd bod prosiect llai o'r enw ARMED yn rhedeg ochr yn ochr â'r peilot hwn; nid oedd angen llinell fywyd ar y prosiect hwn, ac roedd yn seiliedig ar waith ataliol a monitro, er mwyn gallu darparu cymorth cyn i gwympiadau ddigwydd.

Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd ystyr yr acronym ARMED. Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai fod Modelu Risg Uwch ar gyfer Canfod yn Gynnar (ARMED) yn ddyfais feddygol ardystiedig ac arloesol ar gyfer atal a hunanreoli; roedd yn cyfuno modelu dadansoddeg ragfynegol arloesol gyda thechnoleg y gellir ei gwisgo, a data iechyd a gofal cymdeithasol. Ychwanegwyd bod swyddogion wedi bod yn gweithio ar y fenter hon gyda phartneriaid yng Nghaerdydd, a'i cynhaliodd ar ddechrau'r pandemig ac a welodd ostyngiad sylweddol yn nifer y bobl a oedd yn cwympo oherwydd yr elfen atal. Hysbyswyd yr Aelodau bod ARMED yn ddyfais y gellir ei gwisgo sy'n monitro lefel gweithgarwch a phwysedd gwaed; yna byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hadrodd yn ôl i'r ganolfan i dynnu sylw at unrhyw newid neu amrywiad mewn symudedd. Pe bai'r data'n tynnu sylw at unrhyw newidiadau, esboniwyd y byddai Llesiant Delta yn cwblhau gwiriad lles, ac yn cysylltu â ffisiotherapydd mewnol y cyngor a allai argymell ymarferion amrywiol.

Holwyd pryd y byddai'r peilot yn cael ei gynnal, ac a fyddai swyddogion yn cynnwys misoedd y gaeaf, gan y gallai hyn o bosib amlygu mwy o gwympiadau. Roedd swyddogion yn gobeithio dechrau'r prosiect cyn gynted â phosib; pe bai'n cael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Cabinet, y nod oedd mai diwedd Mawrth/dechrau Mai fyddai dyddiad dechrau'r cynllun peilot chwe mis. Nodwyd bod llawer o waith wedi'i gwblhau ymlaen llaw er mwyn symud hyn yn ei flaen. Hysbyswyd y Pwyllgor na fydd y cynllun peilot hwn yn cynnwys holl fisoedd y gaeaf, fodd bynnag, bydd yn rhoi cyfle i werthuso'r peilot; os

yw'n llwyddiannus, gallai swyddogion fwrw ymlaen ag achos yn barod ar gyfer y gaeafau sydd i ddod.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Castell-nedd Port Talbot</u>

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am Strategaeth ddrafft Rhaglen Cymorth Tai Castell-nedd Port Talbot a'r cynnig i geisio cymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad 90 diwrnod cyhoeddus.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â 'chynllun ar dudalen'. Esboniodd swyddogion ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith strategaeth strategol a wneir; mae'n tynnu sylw at y pwyntiau allweddol ar dudalen, er mwyn galluogi unrhyw un i edrych ar yr wybodaeth yn gyflym ac yn hawdd, er mwyn deall beth yr oedd y cyngor yn bwriadu ei wneud.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â dyletswyddau'r cyngor ar gyfer pobl sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd ar ddechrau'r pandemig, drwy ddileu'r gofyniad bod aelwyd mewn angen blaenoriaethol. Nododd yr adroddiad a ddosbarthwyd fod y galw am dai brys wedi dyblu; gofynnodd yr Aelodau a oedd y rheoliadau hyn yn debygol o barhau. Cadarnhawyd bod y rheoliadau'n debygol o barhau; roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gael gwared ar ddigartrefedd ledled Cymru, ac roeddent wedi bod yn ceisio gofyn i gynghorau i fynd i'r afael â'r cynnydd enfawr yn y galw. Dywedodd swyddogion fod y galw am lety dros dro wedi dyblu; cyn y pandemig, roedd gan y cyngor tua 35-40 o bobl mewn llety dros dro, ond mae 151 ohonynt yr wythnos hon. Esboniwyd bod yr angen blaenoriaethol a gafodd ei ddileu, sef yr hyn a achosodd y cynnydd yn y galw, yn dal i gael ei nodi fel un a ohiriwyd; fodd bynnag, bwriad Llywodraeth Cymru oedd ei gadw fel hyn, gan eu bod yn disgwyl i awdurdodau lleol sefydlu model ailgartrefu cyflym i fynd i'r afael â'r mater. Nododd swyddogion fod y rhaglen hon yn un tymor canolig, a byddai'n cymryd dros 5 mlynedd i'w gweithredu; roedd llawer o waith i'w wneud ar ei chyfer. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod nifer o ddatrysiadau tymor byr ar waith; roedd nifer o letyau yn cael eu hadeiladu/haddasu, roedd swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), ac roedd tîm atal ar waith i geisio gweithio gydag unigolion e.e. ymdrin â'u dyledion, cyn iddynt ddatgan eu bod yn ddigartref.

Mynegodd yr Aelodau yr angen i nodi'r cynlluniau ar gyfer y tymor hwy. Y gobaith oedd y byddai'r weinyddiaeth newydd yn ystyried dod â chartrefi gwag yn y Fwrdeistref Sirol dan berchnogaeth y cyngor unwaith eto; gan y gallai hyn helpu llawer er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 4. <u>BLAENRAGLEN WAITH</u>

Nodwyd y Blaenraglen Waith Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles ar gyfer 2021/22.

**CADEIRYDD**